YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

CYLCHLYTHYR RHIF 15 GWANWYN 1993

Sefyll yn y drafft

Fe dybiwn wybod fod Winston Churchill wedi anfon milwyr i Donypandy, fod Harold Macmillan wedi ein sicrhau na buom erioed yn well ein byd, a bod Norman Tebbit wedi ein cymell i neidio ar gefn beic. Ond sut gwyddom ni yr hyn a dybiwn?

Dyna un o'r cwestiynau difyr y bu Patrick Hannan yn eu trafod wrth draddodi 6ed Darlith Flynyddol yr AWG yn Aberystwyth ar 6 Tachwedd 1992.

Yn enedigol o Aberdâr, astudiodd Mr Hannan hanes wrth draed David Williams yn Aberystwyth cyn mentro ar yrfa nodedig ym maes newyddiaduriaeth. Mae'n hen gyfarwydd â syllu ar wleidyddiaeth o ongl wahanol: yn olygydd diwydiannol y *Western Mail;* yn ohebydd gwleidyddol y BBC yng Nghymru; yn gyflwynydd a chyfrannwr i raglenni radio; yn gynhyrchydd rhaglenni nodwedd a dogfennol i'r teledu gan gynnwys dwy ffilm yn y gyfres *Wales! Wales?* a sgriptiwyd gan yr hanesydd, David Smith; yn olygydd dau gasgliad o ysgrifau, *Wales on the wireless* (1988) a *Wales in vision* (1990); ac, yn fwyaf diweddar, yn golofnydd i'r *Wales on Sunday* a'r *Western Mail*.

Manylu ar y berthynas agos a wêl efrhwng newyddiaduriaeth a hanes a wna Mr Hannan yn ei ddarlith, gan ddadlau fod y newyddiadurwr a'r hanesydd yn cyrchu'r un nod, y prae annelwig hwnnw nad ellir fyth mo'i ddal yn iawn, y gwirionedd.

Lluniodd Mr Hannan deitl i'w ddarlith o'r frawddeg a ddefnyddiwyd gan y gohebydd o'r UDA, Benjamin C Bradlee, yn y cyflwyniad

Disgwyl y milwyr? Heddlu yn gorffwys yn Nhonypandy 1910-11

(LIGC: PB7586)

i'w gyfrol, *Conversations with Kennedy* (Llundain: Quartet Books, 1976):

'I danlinellu'r ffaith nad all newyddiadurwr fyth wybod y gwir i gyd ar unwaith, fe ddywedodd y diweddar Philip Graham [(1915-63), cyhoeddwr y *Washington Post*] un tro nad yw newyddiaduriaeth yn ddim mwy na drafft bras cyntaf hanes.'

Cytunai haneswyr â hynny. Ys dywed Dr Aled Gruffydd Jones yn rhagair ei lyfr newydd, *Press, Politics and Society: a history of journalism in Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1993:

'Ysgrifennu ar y pryd yr oedd newyddiadurwyr y gorffennol, heb lawer o amser i ailfeddwl na chaboli, ond, er hynny, bydd haneswyr a cysgolheigion eraill ein hoes ni yn troi'n gyson at yr hen newyddiaduron, wedi eu denu gan lawnder ac ehangder y dystiolaeth wreiddiol a geir yn eu tudalennau.'

Mae'r ddarlith, *The First Rough Draft: History and Journalism'*, gan Patrick Hannan mewn print yn awr a gellir archebu copi ohoni drwy gysylltu â'r Llyfrgell Genedlaethol yn uniongyrchol. Pris £2.25 (£2.75 trwy'r post.)

Archifau gwleidyddol yng Ngwynedd

Mae'n dda gan y *Cylchlythyr* o bryd i'w gilydd gyhoeddi nodyn byr ar ddaliadau gwleidyddol archifdai eraill. Yn y rhifyn hwn telir sylw i archifdai sirol Gwynedd.

Mae gan Archifdy Caernarfon ddeunydd yn ymwneud â D Lloyd George, 1907-47, gan gynnwys rhai o nodiadau ei areithiau a grŵp bychan o ohebiaeth, 1912-16; llyfr cofnodion aelodau Rhyddfrydol Cyngor Sir Caernarfon, 1932-52; cofnodion Ffederasiwn Rhyddfrydol Gogledd Cymru; deunydd amrywiol yn ymwneud â hanes y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn yr ardal; a nifer o recordiau sain, gan gynnwys areithiau Lloyd George, a thâpiau o gyfweliadau â'r Fonesig Olwen Carey-Evans a'r Arglwydd Cledwyn.

Ymhlith daliadau gwleidyddol Archifdy Dolgellau ceir llyfrau cofnodion Cymdeithas Geidwadol Meirionnydd Nant Conwy a grŵp bychan o bapurau'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, 1974-92, papurau sy'n ffurfio rhan o archif fawr a ddaeth i'r Archif Wleidyddol Gymreig yn ddiweddar.

Canrif Huw T

Fis Tachwedd diwethaf trefnwyd arddangosfa fach ym mhrif gyntedd LlGC er nodi canmlwyddiant geni Huw T Edwards.

Roedd Huw Thomas Edwards (1892-1970) yn undebwr, gwleidydd, a gweinyddwr ymroddedig, a frwydrodd ar hyd ei oes dros well amodau i'r gweithiwr a thros fywyd a diwylliant ein cenedl.

Un o'r swyddogaethau pwysicaf y bu'n ymhel â hwy yn ystod ei yrfa hir oedd bod yn gadeirydd cyntaf Cyngor Cymru a Mynwy o 1949 tan 1957.

Rhoddwyd casgliad mawr o bapurau Huw T ar adnau yn LlGC yn 1974. Rhaid cael caniatâd i weld ei ohebiaeth.

Aneurin Bevan yn derbyn rhodd o law Huw T. Edwards yng Nghorwen 1951

(LIGC: G Charles C1509)

Ceidwadwyr Gogledd Cymru

Trwy law Mr Elwyn Jones cafwyd rhagor o bapurau yn ymwneud â'r Blaid Geidwadol yng ngogledd Cymru, yn enwedig Cymdeithas Geidwadol ac Undebol Etholaeth Conwy, 1966-80. Yn eu plith ceir hefyd bapurau Cymdeithas Genedlaethol y Trefnyddion Ceidwadol ac Undebol.

Yr Archif Wleidyddol Gymreig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Dyfed, SY23 3BU.
Tel: (0970) 623816
Fax: (0970) 615709

Pwyllgor Ymgynghorol yr Archif

Yng nghyfarfod mis Tachwedd croesawodd y Llyfrgellydd ddau aelod newydd: Mr D L Jones, Llyfrgellydd Tŷ'r Arglwyddi, a Ms Menna Richards o gwmni HTV, olynydd Mr Emyr Daniel a fynegodd ei ddymuniad i ymddiswyddo. Awgrymwyd enw Dr Aled Jones, Adran Hanes, Prifysgol Cymru Aberystwyth, ac fe gytunodd i ymuno â'r pwyllgor wedi'r cyfarfod. Ym mis Mawrth, fe ymddiswyddodd Mr T M Haydn Rees o'r Pwyllgor oherwydd afiechyd.

Aelodau presennol y Pwyllgor yw:
Dr Brynley F Roberts (Cadeirydd), Dr Denis Balsom, Athro Deirdre Beddoe, Dr Andrew Bold, Miss Beata Brookes, Mr John Clement, Mr Tom Ellis, Mr Gwyn Griffiths, Arglwydd Hooson, Dr Deian Hopkin, Dr Aled Jones, Mr D Elwyn Jones, Mr D L Jones, Athro Emeritus Ieuan Gwynedd Jones, Mr Simon Jones, Athro K O Morgan, Mr Gareth Price, Ms Menna Richards, Mr Ted Rowlands AS, Mr Dafydd Wigley AS, Athro Gwyn A Williams; ac aelodau o staff y Llyfrgell: Mr Gwyn Jenkins, Mrs Beti Jones, Mr J Graham Jones, Miss Lowri Jones, a Mr J Watts-Williams.

DERBYNIADAU

Papurau'r Arglwydd Cledwyn

Derbyniodd yr Archif Wleidyddol Gymreig grŵp sylweddol pellach o bapurau'r Arglwydd Cledwyn o Benrhos (gweler *Cylchlythyr* 10 a 12), deunydd y tro hwn a gasglwyd o'i swyddfa fel arweinydd yr Wrthblaid yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Ceir yn y grwp hwn ffeiliau o ohebiaeth a phapurau, 1983-92, amryw ohonynt yn trafod materion Cymreig, gan gynnwys y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a gweinyddiaeth Prifysgol Cymru, a phynciau'n ymwneud â Sir Fôn.

Rhaid sicrhau caniatâd yr Arglwydd Cledwyn cyn gweld y papurau.

Papurau D Caradog Jones

Daeth i law archif fechan D Caradog Jones (1910-73), ymgeisydd seneddol yn sir Drefaldwyn o 1951 tan 1959, a chawn ynddi bortread diddorol o weithgaredd Llafurwr yng nghefn gwlad.

Thomas Jones

Bu'r Fonesig White yn garedig iawn yn cyflwyno i'r Archif Wleidyddol bedwar anerchiad printiedig a fu'n eiddo i'w thad, Dr Thomas Jones, CH (1870-1955). Cyflwynwyd y cynharaf ohonynt, araith heb deitl a draddodasid yn Glasgow yn 1921, 'To Tom Jones with all good wishes' gan ei awdur, Andrew Bonar Law. Stanley Baldwin bioedd dau o'r lleill: 'The Classics and the Plain Man' (1926) a 'The New World' [wedi ei lofnodi 'T.J. from S.B.'] (1930). Mae'r olaf, 'Of Prime Ministers and Cabinets' (1938) gan Thomas Jones ei hun.

Rhyfel y merched

Mae'r ysgrifau a anfonwyd at gwmni cyhoeddi Honno yn ymateb i'w apêl am atgofion merched o gyfnod yr Ail Ryfel Byd wedi eu trosglwyddo i'r AWG trwy law Yr Athro Deirdre Beddoe a fu'n gyfrifol, ynghyd â Leigh Verrill-Rhys, am olygu detholiad ohonynt yn ddiweddar i'r gyfrol, *Parachutes and Petticoats. Welsh Women Writing on the Second World War* (Dinas Powys: Honno, 1992).

Rhyddfrydwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol

Trwy law Mr Gwyn Griffiths cafodd yr AWG grŵp o bapurau yn ymwneud â'r Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig yn ogystal ag ychwanegiadau at Archif y Blaid Ryddfrydol ac at bapurau gwleidyddol Mr Griffiths ei hun, yn dyddio o'r 70au cynnar i'r 90au cynnar.

Plaid Cymru Ceredigion

Derbyniwyd rhagor o bapurau yn ymwneud â gweithgareddau Plaid Cymru yng Ngheredigion. Maent yn cynnwys gohebiaeth a phapurau'r Pwyllgor Rhanbarth 1974-84, yn ogystal â deunydd perthynol i Gangen Aberystwyth ac Adran Merched Ceredigion.

Argraffwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Dyrnaid go dda o Peate ar ei orau

Mae papurau Graham F Thomas (gw. *Cylchlythyr* 14) yn cynnwys bron deg ar hugain o lythyrau gan Iorwerth Peate.

Dyddia'r llythyrau o'r cyfnod 1942-53 yn bennaf, a'u prif bwnc trafod yw ymdrech Iorwerth Peate i ryddhau'r Amgueddfa Werin o lyffetheiriau'r Amgueddfa Genedlaethol.

Ni allai wneud hynny heb gytundeb corff llywodraethol AGC. Roedd aelodau seneddol Cymru i gyd yn Llywodraethwyr, ac fe hoeliai Peate ei obeithion ar eu cefnogaeth hwy. Wrth gofio yn ddiau am y cymorth a gawsai gan un AS adeg y rhyfel, ysgrifennodd ar 12 Awst 1948:

'Pe oni cymerai Jim Griffiths a'i Gyfeillion yr awennau yn hyn o beth! Fel y mae hi, ni welir ond difrawder ar bob llaw.'

Ar 5 Tachwedd 1948, fe holodd ef Graham Thomas:

'A glywsoch chwi am y gyflafan yn Llys yr Amgueddfa? Trechwyd ymgais Goronwy Roberts dros ein hannibyniaeth o 49 i 4! Roedd hi'n olygfa drist [...] Ni ddaeth cynifer ag un AS i gefnogi GOR.'

Erbyn 19 Mawrth 1950, roedd ei rwystredigaeth yn fwy eglur fyth:

'Pe dymunent, fe allai ASau Llafur Cymru, neu yn wir aelodau Cymreig y Cabinet, osod yr Amgueddfa Werin ar ei thraed yfory. A oes raid iddynt ufuddhau i bolisi'r rhai adweithiol sydd heb weld posibiliadau mawrion y lle hwn?'

Iorwerth Peate yn ei elfen yn Sain Ffagan

(LIGC: G Charles Y1383-3)

Daliodd i frwydro ac mae ei lythyr olaf ar y pwnc, dyddiedig 28 Rhagfyr 1952, yn fwy gobeithiol ei naws:

'Rhoddodd Llys y Llywodraethwyr, drwy H T Edwards, Goronwy Roberts, George Thomas a Thudor Watkins yn ogystal â Chliff Prothero, hwb go iawn i'r mudiad er sicrhau annibyniaeth gweinyddoli'r Amgueddfa Werin. Prothero, mi glywais i, a wnaeth yr araith orau o'r cwbl. Pe deuasai ond wyth neu naw o'r ASau eraill byddent wedi cario'r dydd.'

Goronwy Roberts (canol), gydag Eirene White, Cledwyn Hughes ac eraill yn mwynhau arabedd Aneurin Bevan yng Nghorwen, 1951

(LIGC: G Charles C 1511)